OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1773 (Cy. 245)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Hydref 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *12 Hydref 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Tachwedd 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 1 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Tachwedd 2015.

### Diwygiadau i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli) yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "statws rhydd rhag twbercwlosis" ("*tubercolosis-free status*") yw buches sy'n bodloni'r amodau a nodir yn Atodiad A.1, paragraffau 1 a 2 o Gyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC(**3**) ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnach ryng-Gymunedol mewn anifeiliaid buchol ac anifeiliaid o deulu'r mochyn."

(3) Yn erthygl 12 (profi ar gyfer twbercwlosis) ym mharagraff (9) hepgorer y diffiniad o "colli ei statws rhydd rhag twbercwlosis".

(4) Yn erthygl 14 (cofnodion o brofion ar gyfer twbercwlosis) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044); ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2010/1379 (Cy. 122).

(**3**) OJ Rhif P 121, 29.7.1964, t 1977.

"(4) Pan fo buches yn colli neu'n adennill ei statws rhydd rhag twbercwlosis caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth am y fuches honno ar unrhyw ffurf y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn addas at ddibenion helpu personau eraill i ddiogelu rhag lledaeniad pellach twbercwlosis."

*Rebecca Evans*
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd o dan awdurdod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2015

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1379 (Cy. 122)). Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi manylion am leoliad mangreoedd lle bo'r fuches wedi colli neu adennill ei statws rhydd rhag twbercwlosis yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC ar broblemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnach ryng-Gymunedol mewn anifeiliaid buchol ac anifeiliaid o deulu'r mochyn (OJ Rhif P 121, 29.7.1964, t 1977).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.